PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 27 Gorffennaf 4, 2024 50c.

## Diolch a Dathlu yn Llangennech

Roedd dydd Sul 14 Ebrill yn ddiwrnod o ddathlu a diolch yn Eglwys Bethesda, Llangennech wrth inni nodi chwarter canrif o weinidogaeth y Parchg Llewelyn Picton Jones yn ein plith. Ar ôl cyfnod mewn diwydiant a gyrfa faith ym myd addysg, profodd Llew alwad gref i'r weinidogaeth Gristnogol ac roedd yr adnod ar flaen y daflen ddathlu yn adlewyrchu ei ffydd gadarn a diffuant: 'Yr wyf yn diolch i Grist Iesu ein Harglwydd, yr hwn a'm nerthodd, am iddo fy nghyfrif yn un y gallai ymddiried ynof a'm penodi i'w wasanaeth.' (1 Timotheus 1:12)



### Troeon yr yrfa

Fe'i hordeiniwyd yng nghapel y Tabernacl, Hendygwyn ym mis Ionawr 1995, gan ymgymryd â gofal yr eglwys honno ynghyd ag eglwysi eraill yr ofalaeth, sef Bethel Llanddewi Efelfre a Trinity Llanboidy. Symudodd i Fethesda ym mis Ebrill 1999 ar drothwy degawd, canrif a mileniwm newydd gan ymgartefu yn hapus iawn ym Methesda. Yn 2001 ymunodd Bethesda ag Eglwys Hope Pontarddulais a wedyn Hope-Siloh i ffurfio gofalaeth newydd, gofalaeth sydd wedi datblygu ar hyd y blynyddoedd o dan arweinyddiaeth Llew a'i briod Marie-Lynne. Roedd yr achlysur yn gyfle i ddiolch i'r ddau am eu brwdfrydedd a'u hymroddiad dros y cyfnod bendithiol a llewyrchus yma.

### Amrywiaeth

Llywyddwyd yr oedfa gan Mr Colin Lee, un o ddiaconiaid ffyddlon ac ymroddgar Bethesda, a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Heledd a Lowri, wyresau Llew a Marie-Lynne. Cafwyd amryw o gyfarchion oedd yn gyfle i ddiolch i Llew am ei ofal cydwybodol a thyner trosom fel eglwys ac yn wir i gymdeithas ehangach hefyd ar hyd y blynyddoedd, yn ogystal â'i bregethu grymus sydd bob amser yn adlewyrchu ei gariad mawr tuag at ei Waredwr. Cyflwynwyd cyfarchion gan Efa, Ffion ac Elen ar ran plant ac ieuenctid Bethesda, gyda phawb yn mwynhau clywed am y cyfleoedd amrywiol a chyfoethog a brofwyd ganddynt o dan arweiniad Llew a Marie-Lynne. Ar hyd y blynyddoedd bu cydweithio a chydaddoli hapus gydag eglwysi Llangennech a hefyd gyda'n chwaer eglwys Hope-Siloh. Cyflwynwyd cyfarchion ar ran eglwys Bryn Seion gan Mr Bill Griffiths ac ar ran eglwys Salem gan Miss Megan Morgan y ddau yn diolch ac yn tystio i hynawsedd a pharodrwydd Llew i gynorthwyo eglwysi'r pentref a hefyd am ei weledigaeth yn sefydlu dosbarth Beiblaidd undebol ugain mlynedd yn ôl, dosbarth Beiblaidd sydd yn dal i ffynnu ac sydd yn cynnig cyfle i ddarllen a thrafod y Gair mewn awyrgylch hapus ac adeiladol.



### Gwerthfawrogiad

Mr Eric Jones, ysgrifennydd Hope-Siloh, gyflwynodd cyfarchion ar ran ein chwaer eglwys, gan danlinellu y cydweithio hapus a buddiol a fu rhwng y ddwy eglwys ers ffurfio'r ofalaeth o'r cychwyn cyntaf dan arweiniad doeth Llew. Cyflwynodd Mr Desmond Jones deyrnged hyfryd iawn ar ran aelodau Bethesda, oedd yn nodi personoliaeth hawddgar ein Gweinidog, ei awydd i gynorthwyo, ei ofal diflino a'i barodrwydd i fod yn glust ac yn gynhaliaeth i'w aelodau ymhob sefyllfa. Cyflwynwyd rhodd hael ar ran yr eglwys i Llew gan Mr Ken John a thusw hardd o flodau i Marie-Lynne gan yr ieuenctid. Diolchodd Llew yn gynnes iawn i bawb am eu cyfarchion, ac i aelodau a swyddogion Bethesda am eu cefnogaeth, eu cyfeillgarwch a'u ffyddlondeb ar hyd y blynyddoedd. Diolchodd hefyd i'r Parchg D.Gerald Jones am lunio englyn arbennig i ddathlu'r achlysur:

### I'n Gweinidog

*Mae'n dyst, ac i ni'n destun – i'w ruddin*
*a'i raddau arobryn;*
*Yma'n Lew, ac i mi'n lun –*
*O yrfa'r Crist diderfyn.*

Traddododd Llew neges bwerus ar y testun: 'Felly cenhadon dros Grist ydym ni' (2 Corinthiaid 5:20) a therfynwyd yr oedfa gyda'r emyn godidog 'Saif ein gobaith yn yr Iesu' a ganwyd gydag arddeliad gan y dyrfa luosog gyda Mr Geraint Williams ein horganydd medrus yn cyfeilio. Yn dilyn oedfa hapus a bendithiol gwahoddwyd pawb i'r capel bach i fwynhau lluniaeth ysgafn, darn o gacen y dathlu a chyfle i gymdeithasu. Diwrnod o ddathu a diolch a erys yn hir yn y cof!

*M H*

# CLYWED HANES Y DDEISEB HEDDWCH FAWR YM MORIAH

Ffion Fielding o'r Academi Heddwch oedd siaradwr gwadd sesiwn prynhawn Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin yng nghapel Moriah, Blaenwaun. Yn un o 'ferched y Priordy' a chyn-ddisgybl Ysgol Bro Myrddin, mae Ffion bellach yn byw yng Nghaerdydd ac yn rheolwr y cynllun Hawlio Heddwch: Adeiladu Momentwm.



### Creu byd o heddwch

Eglurodd Ffion mai pwrpas y cynllun, sy'n cael ei ariannu gan y Loteri Genedlaethol, yw cofio a dathlu Deiseb Heddwch 1923, gan ddefnyddio honno fel ysbrydoliaeth i greu byd o heddwch. Ganrif yn ôl roedd America yn gwrthod ymuno â Chyngrair y Cenhedloedd (rhagflaenydd y Cenhedloedd Unedig) a sefydlwyd wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf. Yng Nghymru roedd gan Undeb Cynghrair y Cenhedloedd tua 50,000 o aelodau, a chafwyd nifer o ymgyrchoedd am heddwch, gan gynnwys trefnu'r ddeiseb anferth a arwyddwyd gan bron i 400,000 o fenywod Cymru. Un o brif drefnwyr y ddeiseb oedd Annie Hughes Griffiths, a gadwodd ddyddiadur o'r daith i America gyda'r ddeiseb, a'r teithiau hir ar draws America.

### Canrif mewn cist

Ar ôl canrif mewn cist bren yn amgueddfa'r Smithsonian, Washington DC daeth y ddeiseb 'nôl i Gymru y llynedd o dan gynllun Heddwch Nain/Mamgu. Mae bellach yn y Llyfgell Genedlaethol, lle mae'r holl dudalennau'n cael ei digideiddio i'w rhoi ar wefan y llyfrgell. Gellir cael manylion enwau'r rhai a arwyddodd y ddeiseb dan enw lle ac ar ôl iddi ddarganfod enw ei hen-famgu ymhlith yr enwau, fe ddefnyddiodd Sioned Williams AS yr wybodaeth mewn dadl yn y Senedd meddai Ffion Fielding. Trawsffurfiwyd 128,000 enw hyd yn hyn, a cheir tua 450 o bobl ar Facebook y mudiad. Roedd menywod o wahanol gymunedau wedi'u hysbrydoli gan elfennau gwahanol, ac ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched cafwyd *flash mob* ar risiau'r Amgueddfa Genedlaethol, a dechreuwyd sgwrs am greu heddwch yn ein cymunedau.

### Rhan o hanes y Cymry

Codwyd ymwybyddiaeth o'r prosiect ym Mhabell Heddwch yr Eisteddfod Genedlaethol, mewn arddangosfa yn Sain Ffagan, ble y'i cysylltiwyd â Chomin Greenham, a chyhoeddwyd adnoddau i ysgolion. Y cam nesaf ar ôl y digwyddiadau a grewyd eisoes i dynnu sylw yw creu arddangosfeydd, parhau i drawsysgrifo'r enwau, dechrau sgwrs genedlaethol am heddwch, ac edrych ar sut mae creu Cenedl Heddwch. Bydd hybu arddangosfeydd ac addysg, a sicrhau cefnogi gwaith ac ymchwil ar ôl i'r cynllun orffen, yn gwneud yn siŵr bod stori'r ddeiseb yn aros yn rhan o'n hanes ni fel Cymry ar lwyfan rhyngwladol. Nodwyd, wrth gloi, fod yr arddangosfa yn dod i Hwlffordd ddiwedd mis Medi.

**Joan Thomas**

(Bydd hanes sesiwn fore'r cwrdd chwarter mewn rhifyn pellach o'r *Tyst*)

# Codi arian ym Mhwllheli

Nid dim ond yn ystod trydedd wythnos Mai y bydd Pwllheli'n casglu arian at Gymorth Cristnogol. Yn ystod Hydref 2023, bu Nia Wyn Williams, Y Drindod, yn cyflawni camp arbennig trwy redeg hanner marathon yng Nghaerdydd gan godi £3,610.

Yna, cyflawnodd 70k yn ystod Mai eleni gan godi swm sylweddol eto o £1,355 (mwy i ddod). Gwych oedd gweld lluniau o Nia'n rhedeg ac yn cael ei chyfweld ar raglen *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* ar nos Sul yn ddiweddar gan roi Pwllheli ar y map.

### Y Grawys

Ers blynyddoedd bellach, bydd eglwys St Pedr yn trefnu Cinio Grawys bob dydd Llun yn ystod tymor y Grawys gan gyfrannu swm sylweddol o arian at Gymorth Cristnogol. Bydd cyfraniadau oedfaon undebol yn ystod y cyfnod (ynghyd ag oedfa undebol y Pasg) hefyd yn mynd at yr un achos.

### Wythnos Cymorth Cristnogol

Fe gawsom dywydd ardderchog yn ystod y drydedd wythnos o Fai eleni. Tywydd i godi calon ac ennyn brwdfrydedd yn wir. Dechreuwyd yr wythnos gyda gweithgaredd Clwb Plant y Drindod ar y nos Lun. Noson o gemau a chwis, gyda rols selsig a chig moch ynghyd â phaned dan ofal Nia a'r Parchg Bryn Williams. Os na fuoch yno, cawsoch golled! Bu casglu arian ar y stryd ddydd Mercher mewn heulwen braf, bore coffi ym Mhenlan ddydd Gwener a thaith gerdded hamddenol fore Sadwrn. Daeth ein hymdrechion i ben ar y bore Sul, gyda gwasanaeth undebol dwyieithog yn Y Drindod o dan ofal y Parchg Bryn Williams. Da oedd croesawu bron i 100 o bobl o eglwysi Pwllheli a gofalaeth Bryn i'r oedfa.

Yn ystod yr wythnos cawsom gyfle i ddangos gwerthfawrogiad o waith diflino L. Pritchard sydd wedi ymddeol o fod yn ysgrifennydd ar ôl 30 mlynedd o wasanaeth. Diolch cywiraf i Valerie Williams am gytuno i fod yn ysgrifennydd dros dro. Ar hyn o bryd cyfanswm y swm a gasglwyd yn ystod Mai eleni yw £4,656.17.




**Glenys Jones, Pwllheli**

Yr Adran
Gydenwadol

GORFFENNAF 4 2024 RHIF 175

# Wythnos Cymorth Cristnogol Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch



Y criw gweithgar fu'n paratoi'r 'Brecwast Mawr' yn festri Brondeifi



Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru, yn annerch y bore coffi yng Nghanolfan Bentref Cwm-ann



Rhai o'r criw fu ar y daith gerdded noddedig yn ardal Silian a Llanbed

Y bore coffi a drefnwyd gan Eglwys San Pedr, Llanbed, yn Neuadd yr Eglwys ddydd Sadwrn, 11 Mai, roddodd gychwyn i ddigwyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol Llanbed eleni. Darparwyd gwledd o gacennau cartref blasus a digonedd o goffi neu de i dorri syched wrth fwynhau'r cyfle am glonc a rhoi'r byd yn ei le. Codwyd dros £300 er budd Cymorth Cristnogol.

Cynhaliwyd Oedfa Cymorth Cristnogol fore Sul, 12 Mai, yn Eglwys Sant Tomos, Llanbed. Bu cyfle wedi'r oedfa i gymdeithasu a mwynhau paned a *croissants*, a chafwyd casgliad o bron i £200 er budd yr elusen.

Taith gerdded noddedig dan ofal aelodau chwech o gapeli Undodiaid Aeron Teifi gynhaliwyd y prynhawn Sul hwnnw. Roedd y daith yn dilyn y llwybrau o Bontrhydfendigaid draw at Abaty Ystrad-fflur, lle mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud i ddarganfod rhagor am faint y sefydliad ac adfer yr hen ffermdy. Codwyd dros £300 at Gymorth Cristnogol a derbyniwyd hefyd rodd o £200 o'r casgliad a wnaed yng Nghymanfa Ganu Annibynwyr Llanbed a'r Cylch yng Nghapel Soar, Llanbed, nos Sul, 12 Mai.

Daeth y byd a'r betws i Ganolfan Bentref Cwm-ann fore Llun, 13 Mai, i'r bore coffi a drefnwyd gan Eglwysi Plwyf Pencarreg a Chapel Bethel, Parc-y-rhos. Croesawyd pawb gan y Parchedig Carys Hamilton a chyflwynwyd y diolchiadau gan Twynog Davies, Cadeirydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol Llanbed a'r Cylch. Cyfeiriodd at bwysigrwydd Wythnos Cymorth Cristnogol a chroesawu Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru, i annerch y bore coffi.

Cyfeiriodd hithau at waith Cymorth Cristnogol a'r ymgyrch codi arian ym Mai yn canolbwyntio'n benodol ar wlad Burundi, Affrica. Soniodd am Aline a'i theulu sy'n byw yn Burundi a sut y daethant i wybod am Gymorth Cristnogol. Derbyniodd Aline gefnogaeth a hyfforddiant gan asiantaethau lleol a ariannwyd gan Gymorth Cristnogol. Mae ganddi bellach fusnes ei hunan sy'n dod ag incwm i'w chefnogi hi a'i theulu. Newidiodd Cymorth Cristnogol ei bywyd o un o dlodi enbyd i un yn llawn gobaith am ddyfodol gwell. Diolchwyd i Mari McNeill am ei chyflwyniad ac am gefnogi'r bore coffi, lle codwyd £1,100 tuag at Gymorth Cristnogol.

Capel Brondeifi, Llanbed, groesawodd drigolion Llanbed a'r cylch am 'Frecwast Mawr' fore Mercher, 15 Mai. Dechreuodd y coginio am 7 y bore dan arweiniad Delyth Jones a'i merched Meinir a Meleri a thîm profiadol o wirfoddolwyr. Diolchodd Twynog Davies i'r Parchedig Wyn Thomas, Gweinidog Capel Brondeifi, a'r aelodau am y brecwast, lle codwyd dros £2,000 tuag at waith Cymorth Cristnogol.


Cynhaliwyd taith noddedig arall nos Fercher, 15 Mai, dan ofal Capel Bethel, Silian, ger Llanbed. Cafwyd taith hyfryd ar noson braf o wanwyn dan arweiniad Beryl Williams ac Alun Jones. Aeth y gylchdaith o bentref Silian i gyfeiriad ffermydd Gwarffynnon a Phantmawr a gwesty Glynhebog, yna heibio bythynnod Tŷ Hen a Llyn Glynhebog yn ôl i Silian. Diolch i Gapel Bethel am gyfrannu dros £550 i Gymorth Cristnogol.

Mae rhagor o hanes y gweithgareddau hyn i'w gweld ar wefan Clonc 360

Derbyniwyd cyfraniadau hefyd o eglwysi Caersalem, Parc-y-rhos; Erw, Cellan; a Noddfa, Soar a Shiloh yn Llanbed. Dosbarthwyd blychau casglu arian yn nifer o siopau a busnesau Llanbed a Llanybydder, gan godi bron i £150. Yn sgil yr holl ymdrechion hyn, codwyd cyfanswm anrhydeddus o dros £5,000 hyd yn hyn yn ardal Llanbed. Wrth ddiolch i bawb am eu cyfraniadau, cyfeiriodd Twynog Davies at bwysigrwydd Cymorth Cristnogol:

'Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, gall pob un ohonom gynnig cymorth trwy ein rhoddion i'r cannoedd o brosiectau cymunedol sydd yn mynd i wella safon byw teuluoedd ar draws y byd. Bydd yr arian a gaiff ei gasglu eleni yn mynd at ymgyrch ryngwladol Cymorth Cristnogol ac yn canolbwyntio'n arbennig ar wlad Burundi, Affrica. Bydd ein rhoddion yn helpu pobl Burundi i gael y wybodaeth a'r sgiliau maent eu hangen i dyfu bwyd, prynu meddyginiaeth, rhoi addysg a gwella eu hamodau byw. Diolch yn fawr iawn am gefnogi gwaith elusennol Cymorth Cristnogol, gwaith mor bwysig ag erioed yn y cyfnod heriol yma lle mae cymaint o angen yn y byd.'

*Rhys Bebb Jones*
(ar ran Pwyllgor Cymorth Cristnogol Llanbed a'r Cylch)




### CWRS Ieuenctid: 29 Gorffennaf – 2 Awst – i ieuenctid 11–14 oed

4 diwrnod yn llawn gemau, crefftau, chwaraeon, sioe dalent, disgo, gweithgareddau ar y llyn, trip, *s'mores* o amgylch y tân a llawer mwy.
Yn ystod ein hamser gyda'n gilydd byddwn yn edrych ar y ffydd Gristnogol a sut mae'n berthnasol i ni heddiw.
Y gost yw £130 ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau; mae'n ½ pris i'r 2il/3ydd plentyn o'r un teulu.

### Anhrefn Awst: 12–15 Awst – i blant 8–11 oed

Gemau gwirion, canu, storïau o'r Beibl, crefft, chwaraeon, gweithgareddau ar y llyn, *s'mores* o amgylch y tân, trip a llawer mwy. Y gost yw £100 ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau; mae'n 1/2 pris i'r 2il/3ydd plentyn o'r un teulu.

### Souled Out: 17–22 Awst – i ieuenctid 15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc!

Cyfle grêt ar ddiwedd yr haf i ddal i fyny gyda hen ffrindiau, cwrdd â phobl newydd a mwynhau gweithgareddau hwyl!
Y prif sesiynau bob amser yw uchafbwynt SOULED OUT, wrth i ni addoli Duw, dysgu mwy amdano trwy'r Beibl a gwrando ar storïau anhygoel am beth mae Duw yn ei wneud ym mywydau pobl!

Bydd rhai seminarau ymarferol hefyd i arfogi ac ysbrydoli,
a grwpiau bach i'n helpu ni i feddwl trwy'r hyn ni'n clywed.

Bydd llwyth o bethau hwyl i bawb eu gwneud hefyd!
Dros y blynyddoedd, rydyn ni wedi mwynhau *inflatables* mawr, caffi acwstig, gemau pêl-droed, crefftau creadigol, padlfyrddio, *s'mores* rownd y tân – a mwy!
Y pris yw £134!

## Tripiau ysgolion Sul

Bu cyfnod pan oedd pob pentref a thref, bron, dros Gymru yn cynnal eu trip ysgol Sul blynyddol yr adeg yma o'r flwyddyn. Bydd gan lawer ohonom atgofion o dripiau i Ynys y Barri, Dinbych-y-pysgod, y Rhyl neu Landudno, efallai. Yn fwy diweddar bu tripiau i ganolfannau gwyliau fel Butlin's, Pwllheli, ac Oakwood ym Mhenfro, a mentrodd rhai ymhellach i Alton Towers neu sŵ Bryste neu Gaer.

Cofiaf y cyfnod pan oedd Cyngor yr Ysgolion Sul yn trefnu tripiau ysgol Sul yn Butlin's, gyda sioeau gan gymeriadau fel Jeifin Jenkins ddechrau'r 90au. Daeth dros 6,500 o blant ynghyd ar yr un diwrnod i Bwllheli pan drefnwyd y trip cyntaf gennym.




Tybed pa ysgolion Sul sy'n dal i drefnu trip blynyddol erbyn hyn? Beth am yrru llun atom o drip eleni, gan sicrhau caniatâd i'w gynnwys, wrth gwrs. Rhowch ychydig frawddegau'n nodi enw'r ysgol Sul ac i ble'r aethoch chi.

Dyma lun o drip ysgol Sul Chwilog ar eu hymweliad â'r Gelli Gyffwrdd, ger y Felinheli, ganol Mehefin eleni.

*Aled Davies*
*Cyngor yr Ysgolion Sul*

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 31**
**Ffydd mewn Chwaraeon**

### Gweddi
Ymdawelwn, Arglwydd, o'th flaen a gofyn am dy arweiniad a'th fendith wrth ddilyn yr uned hon. Diolch am bob esiampl sydd gennym o Gristnogion yn dangos eu ffydd ynot drwy gyfrwng eu gwaith. Helpa ni i redeg ein gyrfa ac i gadw'r ffydd. Amen.

### Darlleniad: 2 Timotheus 4:1–8
'Yr wyf wedi rhedeg yr yrfa i'r pen, yr wyf wedi cadw'r ffydd.' (adn. 7)

### Cyflwyniad
Mae'n siŵr fod Paul yn gyfarwydd â nodweddion cystadleuol mabolgampau'r ymerodraeth Rufeinig, ac iddo ddefnyddio'r ddelwedd o athletwr wrth sôn amdano'i hun yn ei siars olaf i Timotheus, ei fab yn y ffydd. Dywed ei fod yn ymwybodol nad oes llawer o amser ganddo ar ôl ac y byddai'n cael ei ladd, 'aberth' yw'r gair yn y bennod hon. Ceir tair delwedd ganddo, sef 'ymdrechu'r ymdrech lew', 'rhedeg yr yrfa' a 'cadw'r ffydd'.

Roedd yr Olympiad gwreiddiol yng ngwlad Groeg wedi'i sefydlu yn yr wythfed ganrif cc ac wedi parhau am bedair canrif, cyn yr Olympiad cyfoes sy'n ymestyn 'nôl i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd yr un nodweddion sylfaenol i'r cystadlaethau hyn, sef ymdrech, dyfalbarhad a dygnwch wrth y dasg. Bydd pencampwyr ein cyfnod yn pwysleisio wrth yr ifanc sy'n dechrau ar unrhyw feistrolaeth o lwyddiant ym myd y campau fod angen dyfalbarhad diddiwedd wrth gryfhau corff a meistrolaeth ar y daith.

Cynnig arweiniad i Timotheus yr oedd Paul, gan sylweddoli y byddai'r gŵr ifanc hwn yn ddolen bwysig rhyngddo ef ei hun a'r eglwysi yn yr ail ganrif. Ar un wedd, roedd Paul yn hyfforddi Timotheus i ddal ati yng ngweinidogaeth yr eglwys ac yn ei annog i ymroi i rannu a byw'r ffydd Gristnogol.

### Myfyrdod
Mae'r eglwys yng Nghymru a thu hwnt wedi sylweddoli bod cenhadaeth yn bwysig drwy fyd y campau, ac mae'r cyrff enwadol wedi cefnogi Caplaniaeth Chwaraeon Prydain drwy roi grantiau iddynt ddatblygu caplaniaid ym mhob math o feysydd. Yr amlycaf ohonynt yng Nghymru yw Steve Jones, sy'n gyfarwyddwr Caplaniaeth Chwaraeon yng Nghymru. Ceir dwy wedd ar waith y gymdeithas hon, sef darparu pobl mewn clybiau proffesiynol ac amatur i roi gwedd ysbrydol i'r gofal sy'n cael ei gynnig yn y mannau hyn, a helpu Cristnogion o blith y sêr proffesiynol i roi tystiolaeth am eu ffydd yn Iesu Grist i'r rhai sy'n dilyn y campau hyn. Er mwy dysgu mwy amdanynt, ewch i wefan www.sportschaplaincy.org.uk

Bydd amryw wedi clywed am waith y Parch. Eirian Wyn (Rosfa) fel caplan yng nghlwb pêl-droed Abertawe, ac mae hanes Michael Jones, blaenasgellwr Seland Newydd yn 1987, yn enwog pan wrthododd chwarae yn y gêm gynderfynol yng nghystadleuaeth gyntaf Cwpan y Byd am ei fod yn Gristion. Person arall a wrthododd chwarae rygbi ar y Sul yw Euan Murray, prop o'r Alban, ac mae llu o bobl eraill yr un mor daer dros eu ffydd.

Drwy gefnogi'r gwaith hwn mae'r eglwysi'n hyrwyddo gwasanaeth a chenhadaeth Cristnogol ar lwyfannau'r campau er lledaenu'r deyrnas. Mae llawer o bobl sy'n barod i uniaethu eu hunain fel Cristnogion mewn chwaraeon, ond i ba raddau y bydd eraill yn ein hadnabod ni fel pobl ffydd, pa lwyfan bynnag y cerddwn arno? 'Boed i eraill drwom ni / adnabod cariad Duw.'

### Gweddi
Maddau inni, nefol Dad, am golli sawl cyfle i rannu ein ffydd gyda phobl a fydd yn sylwi arnom. Diolchwn am dystiolaeth pobl ar lwyfannau campau o bob math. Diolch i ti am y gras sy'n cael ei gyflwyno yn eu bywydau hwy. Amen.

### Cwstiynau i'w hystyried
1. Roedd yr ymerodraeth Rufeinig yn hyrwyddo campau athletaidd, ac mae'r ddelwedd wedi ymdreiddio i eirfa'r apostol. Pa nodweddion o fyd y campau sy'n addas i ddisgrifio bywyd y Cristion? E.e. ymarfer gras a gweddi, gwaith y tim cyfan, sylwi ar gynllun yr hyfforddwr. Ychwanegwch at y rhestr.
2. Wrth edrych 'nôl ar ein gyrfa, a allwn nodi enghreifftiau lle roeddem yn ymwybodol bod yr hyfforddwr yn rhedeg wrth ein hochr?
3. A oes cyfnod o ddiffygio neu flinder wedi ein goddiweddid?
4. Bydd timau cenedlaethol yn ymfalchïo yn eu baner, ond a fyddwn ni yn ymfalchïo ym maner Iesu?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 7 Gorffennaf, am 7:30yh – Uchafbwyntiau 2**
Yn rhaglen ola'r gyfres bydd Nia Roberts yn ein tywys drwy rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn, yn cynnwys taith i'r Almaen i gwrdd â John Sam Jones a stori Caitlin Kelly a'i gwaith dyngarol yn Wcráin a Gaza. A chawn fwynhau canu mawl ysbrydoledig o bob cwr o Gymru.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 7 Gorffennaf, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Dylan Rhys

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 7 Gorffennaf, am 12yp**
Oedfa dan ofal Corey a Catrin Hampton, yr Wyddgrug

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Siarad am Iesu: Cyflwr y ffydd yng Nghymru

*Dyma ail ran yr erthygl hon*

Mae'r adran nesaf yn sôn am sgwrsio am Iesu. Yn ôl y rhai yng Nghymru oedd ddim yn Gristnogion, dim ond 24% o'r Cristnogion roedden nhw'n eu hadnabod oedd wedi cael sgwrs am Iesu efo nhw. Roedd y ganran yn llawer uwch ym Mhrydain gyfan, sef 55%.

Roedd 75% o Gristnogion yn meddwl ei fod yn gyfrifoldeb ar Gristnogion i siarad am Iesu Grist efo rhai oedd ddim yn credu ac roedd 77% o Gristnogion yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n gyfforddus i siarad efo anghredinwyr. Ond roedd 40% yn dweud nad oedden nhw ddim yn siarad am Iesu Grist wrth anghredinwyr oherwydd nad oedden nhw ddim yn teimlo yn hyderus i ateb cwestiynau anodd. Roedd 42% o'r Cristnogion yn dweud nad oedden nhw ddim yn adnabod anghredinwyr yn ddigon dda i siarad efo nhw am Iesu. Roedd 34% o'r anghredinwyr oedd wedi cael sgwrs am Iesu eisiau gwybod mwy.

Adroddwyd bod un o bob tri anghrediniwr eisiau gwybod mwy am Iesu ar ôl cael sgwrs efo Cristion!! Mae hyn wedi newid ers 2015 pan oedd dim ond 1 mewn 5 eisiau gwybod mwy ar ôl siarad. Roedd 46% o bobl ifanc rhwng 18–24 eisiau gwybod mwy ar ôl cael sgwrs.

### Sut mae bobl yn dod i ffydd

Mae'r arolwg yn dangos bod y mwyafrif (76%) o gredinwyr yn dod i ffydd cyn 18 oed ond bod bobl o bob oed yn dod i ffydd. Y dylanwad mwyaf oedd teulu Cristnogol a'r ail oedd darllen Y Beibl. Roedd 38% o'r bobl ifanc rhwng 18–24 yn dweud mai darllen y Beibl oedd y dylanwad mwyaf arnyn nhw i ddod i ffydd.

Mae sgyrsiau efo rhywun sy'n credu yn allweddol. Hefyd mae digwyddiadau bywyd fel genedigaeth plentyn neu farwolaeth yn gallu bod yn arwyddocaol.

### Camau nesaf

Un peth oedd yn dod allan o'r diwrnod oedd pa mor bwysig ydy hi i fod yn fodlon siarad am Iesu. Mae llawer o bobl yn fodlon siarad am ffydd yn arbennig pobl ifanc. Mae'n bwysig annog pobl i feithrin perthynas â phobl tu allan i'r eglwys a helpu pobl i beidio bod yn ofnus os dydyn nhw ddim yn gallu ateb cwestiynau. Hefyd efallai dylid helpu pobl i feddwl am sut i ateb cwestiynau.

Yr ail beth oedd pa mor agored yw pobl ifanc i gael sgwrs am ffydd a hefyd pa mor agored yw Cristnogion ifanc i rannu ffydd efo ffrindiau.


Peth arall oedd yn fy nharo i oedd faint o bobl oedd yn meddwl bod yr atgyfodiad wedi digwydd. Mae'r Pasg yn perthyn i ni fel Cristnogion. Mae'r Nadolig wedi cael ei foddi gan y byd ond mae cyfle i Gristnogion wneud mwy am y Pasg ac nid dim ond tu ôl i ddrysau caeedig mewn capel ond yn y byd tu allan.

Ar y cyfan roedd y sesiwn ym Mae Colwyn yn ddiddorol iawn ac yn ein herio ni fel Cristnogion i gael mwy o hyder i siarad am Iesu. Efallai fod rhai pobl yn fwy bodlon clywed nag ydyn ni i rannu!

**Maggie Hughes**
**Caersalem, Caernarfon**

# FFAELU A FFYNNU

Caled yw ffaelu a rhwydd yw ffynnu. Llawenydd yw'r teimlad a ddaw o ffynnu ond cywilydd yw'r teimlad a ddaw o ffaelu. Ac mae hyn yn ei dro yn arwain at naill ai hyder neu ddiffyg hyder.



### Cynhadledd ffaelu affwysol

Mae'r rhan fwyaf o *megachurches* y byd yn Unol Daleithiau America ond mae'r rhan fwyaf o eglwysi UDA yn gymharol fach gyda llai na 100 person yn mynychu oedfaon y Sul. Yn wir cymaint yw digalondid cynifer o'r gweinidogion yno fel bod un ohonynt, sef, J. R. Briggs, wedi sefydlu asiantaeth i gynorthwyo ei gyd-weinidogion. Esgorodd ei ymdrechion ar The Epic Fail Conference fu'n llwyddiant mawr yn eironig ddigon!

### Methiannau

Wrth edrych ar y Beibl, down ar draws sawl enghraifft o fethiant. Yn eu plith mae Saul, Jeremeia, Jwdas Iscariot a Demas. Gwrthodwyd Saul fel brenin Israel oherwydd ei anufudd-dod; methiant oedd gweinidogaeth Jeremeia oherwydd anufudd-dod y bobl; bradychodd Jwdas ei feistr; a chefnodd Demas ar y Ffydd. Ymddangosodd carchariad Joseff fel y diwedd i'w freuddwydion. Ond gostyngwyd y dyn ifanc balch hwn mewn carchar tywyll du am ddwy flynedd tan i Dduw ei ddyrchafu'n brif weinidog ar yr Aifft. Dywedodd wrth ei frodyr i Dduw ei anfon 'o'ch blaen er mwyn diogelu bywyd.' (Genesis 45:5)

### Pedr

Yn hanes Simon Pedr gwelwn un a ddilynodd ei feistr yng Ngalilea ond a'i gwadodd ef yn Jwdea. Fe'i ceryddwyd yn llym gan ei feistr ond fe'i hadferwyd yn dyner ganddo wedyn. Er i Pedr blymio o uchelderau llawenydd ei Arglwydd i waelodion anobaith ei bechod eto 'roedd y Meistr wedi gweddïo drosto.' (Luc 22:32) Siomodd Pedr ei Arglwydd yn fawr iawn ac fe wyddai hynny'n ddigon da. Nid oedd angen i neb dynnu'i sylw at hynny. Yr hyn oedd arno'i angen nawr oedd nid beirniadaeth ond cymorth.

### Ein Duw mawr

Ar un olwg sdim angen dweud wrth Dduw fod 'da ni broblem fawr ond yn hytrach dweud wrth ein problem fod 'da ni Dduw mawr. Gall methiant ein llethu gymaint fel y teimlwn nad oes *gobaith caneri* 'da ni. Mae gobaith beth bynnag yn allweddol i ffyniant. Meddai'r Salmydd mai 'ti, Arglwydd, yw fy ngobaith.' (Salm 71:6) Duw sy'n gweithio Ei gynlluniau ynom a thrwom. Er na ddeallwn nhw yn llwyr eto gallwn bwyso ar Ei ffyddlondeb daionus tuag atom. Dywedodd y Piwritan Thomas Brooks: 'Hope can see heaven through the thickest clouds.' Gwyddom am bwysigrwydd cariad a ffydd ond mae gobaith hefyd yn bwysig iawn. Ac 'mae'r gobaith hwn gennym fel angor i'n bywyd.' (Hebreaid 6:19).

Erstalwm arferai athro yn yr Almaen gyfarch ei ddisgyblion trwy godi'i het ac ymgrymu iddynt wrth iddo gerdded mewn i'r ystafell ddosbarth fel arwydd o'u posibiliadau yn y dyfodol. Mwy fyth y gobaith oedd gan yr Arglwydd Iesu Grist yn ei ddisgyblion amrywiol. A llawn cymaint yw ei obaith yn ei weision heddiw.

Gobeithiwch ynddo, bawb o'r saint,
er cymaint yw eich gofid,
gan wybod bod eich Priod gwiw
yn ffyddlon i'w addewid.
(Iago Trichrug)

**Peter H. Davies**

# Barn Annibynnol

## Rhoi gwrth-hiliaeth ar waith

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn 2018, cefais y fraint o fod yn y corws yng nghynhyrchiad *Hwn yw Fy Mrawd*, cywaith campus Robat Arwyn a Mererid Hopwood oedd yn olrhain hanes y canwr a'r ymgyrchydd Paul Robeson. Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn prysur agosáu, rwy'n canu geiriau cyfarwydd eleni ar gerdd dant y tro hwn, sef geiriau 'Hwn yw fy Mrawd' ac y mae'n brofiad gwahanol iawn!

Roedd llwyfannu'r cynhyrchiad hwn yn ardal y bae yng Nghaerdydd yn arwyddocaol iawn gan ei fod nid yn unig dafliad carreg o Tiger Bay a chymuned pobl fel Betty Campbell, yr ymgyrchydd cymunedol a phrifathrawes ddu gyntaf Cymru, ond hefyd yn 90 mlynedd union ers i Paul Robeson glywed côr meibion yn canu yn strydoedd Llundain pan yr oedd yn canu yn y sioe *Show Boat*. Yn ôl yr hanes, grŵp o lowyr oedden nhw, wedi mynd i Lundain i brotestio. Ymunodd Paul â'r côr a chanu gyda nhw a dyma gychwyn perthynas gefnogol gyda'r naill yn ymuno ym mrwydr y llall, ar draws y moroedd. Ewch i chi ddarllen yr hanes, yn enwedig am ei ymweliad ag Eisteddfod Genedlaethol Glynebwy yn 1958, lle'r anerchodd y gynulleidfa, a hyn 30 mlynedd yn ddiweddarach.



### Ymagwedd wrth-hiliol

Ga i fod yn onest gyda chi yma a dweud yn gwbl agored, nad ydwyf wedi ystyried fy hun yn abl nac yn gymwys i fod yn llwyr eiriol dros y dyn a'r fenyw ddu – tan efallai yr wythnos ddiwethaf. Nid wyf yn ystyried fy hun yn berson hiliol, ond dim ond ar ôl i mi dderbyn hyfforddiant gan rwydwaith DARPL yn rhan o'u cynhadledd i'r sector addysg, yr wyf wedi sylweddoli'n llawn mod i'n fwy nag abl i wneud, a bod yn rhaid i mi wneud gydag ymagwedd wrth-hiliol. Golyga hyn weithredu ffyrdd gwrth-hiliol, bod yn agored, yn uniongyrchol gyda'r her, trafod

**DARPL**

Diversity and Anti-Racist Professional Learning

Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliol

gyda rhai sydd yn dangos hiliaeth i feddwl am eu geiriau a'u gweithredoedd, ystyried y rhwystrau sydd yn llwybr pobl, gan eu tynnu oddi yno. Mae'r rhwydwaith DARPL yn Saesneg – neu Ddysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol – wedi bod yn cynnal hyfforddiant i'r sector addysg ers nifer o flynyddoedd bellach. Maent yn cynnal sgyrsiau a sesiynau i athrawon ac i'r sector gofal plant ac yn griw o bobl sydd am helpu holl gymunedau Cymru i weithredu'n wrth-hiliol. Chantelle Haughton yw sylfaenydd a Chyfarwyddwr DARPL ac y mae Kevin Palmer, Dirprwy Gyfarwyddwr Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru wedi cydweithio i sefydlu'r rhwydwaith bwysig hon.

Eu gweledigaeth yw sicrhau bod y rhai sy'n gweithio ym maes addysg yn barod i ymgymryd ag ymarfer gwrth-hiliol sy'n cefnogi'r nod o fod yn Gymru wrth-hiliol erbyn 2030. Mae gan Lywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sydd i'w weld ar eu gwefan ac y mae ysgolion ledled Cymru yn gweithredu polisïau gwrth-hiliol.

### Adnoddau

Mae adnoddau DARPL yn cynnwys ymchwil, enghreifftiau cyfredol, clipiau fideo a phrofiadau byw er mwyn sicrhau dealltwriaeth a beth yw'r cam nesaf o weithredu sef yr ymarfer gwrth-hiliol, yn cael ei roi ar waith ar bob lefel, ym mhob lleoliad. Mae Diwrnod Windrush wedi'i gynnal ar 22 Mehefin ers 2018, i ddathlu'r cyfraniad y mae ymfudwyr Caribïaidd a'u teuluoedd wedi'i wneud i'r Deyrnas Unedig. Ewch i glywed am bobl fel Algernon Foster a ddaeth i fyw i ardal y dociau yn rhan o genhedlaeth y *Windrush*, neu Betty Campbell. Mae eu hanes yn bwysig iawn. Nid rhywbeth ar gyfer un diwrnod neu wythnos neu fis yw gwrth-hiliaeth ond rhywbeth i bob awr o bob dydd!

Mae'r heriau a ddaeth i lwybrau'r genhedlaeth *Windrush* yn parhau i fod yno i'r genhedlaeth ifanc heddiw. Dydyn ni heb ddysgu unrhyw wersi! Rydyn ni'n gobeithio bod ein heglwysi'n fannau gwrth-hiliol, ond ydyn nhw? Oes gyda chi fel eglwys bolisi gwrth-hiliaeth? Beth am i ni fel eglwysi edrych ar sefydlu rhywbeth tebyg i DARPL i ni? Beth amdani?

**Elin Maher**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## Undeb yr Annibynwyr Cymraeg


Yn dilyn cwblhau y modiwlau disgwyliedig, ynghyd â chyfnod o brofiad gweinidogaethol, rydym yn falch o'ch hysbysu fod **Ms Karen Owen** wedi cwblhau'r hyfforddiant academaidd disgwyliedig i gymhwyso ar gyfer y weinidogaeth. Edrychwn ymlaen i'w llongyfarch yn y Cyfarfodydd Blynyddol ar gwblhau'r hyfforddiant. Gweddïwn am fendith Duw arni.

*Parchedig Carwyn Siddall*
*Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau*

## Elim, Ffynnon-ddrain,
### Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

Manylion ysgrifennydd newydd Elim yw:

Brian Walters
Clunmelyn,
Ffynnon-ddrain
Caerfyrddin
SA33 6EE
E-bost: brianwalters2020@outlook.com
Ffôn: (01267) 237842



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru



*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.


# Gofalaeth Carys Ann

Y Parchg Carys Ann gyda diaconiaid newydd eglwys Bryngwenith, ger Castellnewydd Emlyn, Ceredigion sef John Adams ac Elonwy James.



Gyda llawenydd mawr, etholwyd tri diacon newydd yng Nglynarthen, Ceredigion. Yn y llun gweler o'r chwith i'r dde, y gweinidog y Parchedig Carys Ann, Llion Wyn Davies, Glaspant a Hendrefwyn, Dewi Jones, Pantseiri Fach, a Mair Griffiths, Pantybetws a Penparc.





Dyma newyddion da sy'n codi ein calonnau. Derbyniwyd aelod newydd yn eglwys Bryngwenith sef Diane Batton, sydd bellach yn byw yng Nghaerfyrddin, gynt o Bengelli, Brongest. Hefyd etholwyd ymddiriedolwyr newydd yn ychwanegol at y rhai presennol yn eglwys Bryngwenith, sef Huw Adams, Adpar; John Adams, Castellnewydd Emlyn ac Eurig James, Adpar, Castellnewydd Emlyn. Dymunwn bob bendith iddynt yn eu gwaith a'u cyfrifoldebau yng ngwaith yr Arglwydd Iesu.



Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Bro'r Glannau, Henaduriaeth Dyffryn Clwyd
## Gweithiwr Cenhadol Cymunedol

Mae Gofalaeth Bro'r Glannau yn cynnwys wyth cynulleidfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac un Eglwys Fethodistaidd yn ymestyn o Gaerwys i Fetws-yn-Rhos. Ein bwriad yw estyn allan i'r gymuned leol mewn ffyrdd gwahanol, newydd a chreadigol. Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a gweithgar i fod â rhan flaenllaw yng ngwaith plant, ieuenctid a theuluoedd fel Gweithiwr Cenhadol Cymunedol.

**Oriau:** 14 awr yr wythnos.
**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
**Cyflog:** Band 22–26 (£25,962–£28,297) ar raddfa cyflog EBC neu uwch, yn dibynnu ar lefel cymwysterau a phrofiad, a bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC
**Lleoliad:** Byddwch yn gweithio gartref; fodd bynnag, fe all y bydd gofyn i chi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol a'r iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch gyda:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru Ffôn: 02920 627465

**Dyddiad cau : 12 Gorffenaf 2024, 4 o'r gloch**

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

# CYFARFODYDD BLYNYDDOL 2024

gwahoddiad gan

Eglwysi Cyfundeb Dwyrain Morgannwg

11-13 Gorffennaf 2024

Y Ganolfan Gynadledda, Prifysgol De Cymru, Trefforest, Pontypridd.



SIARADWR GWADD
**Susan Derber**
Llywydd Cyngor Eglwysi'r Byd
12 Gorffennaf 12pm



RHWYDWAITH HEDDWCH
**Ron Williams**
Llais o Fethlehem
11 Gorffennaf 4pm



NOSON YNG NGHWMNI
**Delwyn Siôn**
a chyfeillion
11 Gorffennaf 7.30pm



CYMDEITHAS HANES
**Richard Huws**
'Cofio Wncwl Bill' (Rhys Nicholas)
12 Gorffennaf 4pm



ANERCHIAD Y LLYWYDD
**Jeff Williams**
13 Gorffennaf 11.30am

**Gwybodaeth bellach a'r ffrwd fyw:**
annibynwyr.cymru

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*